Darllen gyda'ch plentyn

Nid yr ysgol yw'r unig fan lle gall plant ddysgu darllen. Mae dysgu gartref, neu pan fyddwch allan, yn rhan bwysig o brofiad dysgu pob plentyn.

Dyma rai awgrymiadau defnyddiol ar y ffyrdd gorau o helpu eich plentyn i ddysgu darllen.

- Rhowch amser i'ch plentyn pan fydd yn darllen i chi.
- Gadewch i'ch plentyn afael mewn llyfr ei hun, a'i annog i ddefnyddio geiriau fel 'clawr', 'tudalen' a 'teitl'.
- Siaradwch am yr hyn a allai ddigwydd yn y llyfr cyn ei ddarllen. Chwiliwch am gliwiau ar y clawr blaen ac ôl.
- Siaradwch am y lluniau – edrychwch ar fanylion beth sy'n digwydd.
- Rhowch amser i'ch plentyn adnabod a chywiro ei gamgymeriadau ei hun.
- Os bydd plentyn yn cael trafferth wrth ddarllen gair, dywedwch wrtho am edrych ar y lluniau i chwilio am gliwiau, neu i ddweud sŵn y llythyren gyntaf. Os bydd yn methu'n lân a'i ddarllen, yna dywedwch y gair fel na fydd yn mynd yn rhwystredig.
- Siaradwch am lyfr wedi ei ddarllen. Gwnewch yn siŵr bod eich plentyn yn deall beth y mae'r llyfr yn sôn amdano – mae hyn yn rhan bwysig o fod yn ddarllenydd.
- Peidiwch â gorfodi eich plentyn i ddarllen os na fydd eisiau gwneud hynny. Os bydd yn gyndyn, ceisiwch ddarllen stori iddo a'i annog i ddarllen gyda chi.
- Mae gan lawer o blant hoff lyfrau y maent am eu darllen dro ar ôl tro. Mae hyn yn beth da! Bydd darllen storïau y mae yn ei wybod ac yn eu hoffi yn cynyddu hyder eich plentyn.
- Ceisiwch ddarllen i'ch plentyn mor aml â phosibl. Nid oes raid i chi ddarllen llyfr bob tro – gall fod yn rhestr siopa, bwydlen, neu gyfarwyddiadau.
- Cofiwch fod geiriau o'n cwmpas ym mhobman! Ceisiwch annog eich plentyn i ddarllen enwau, arwyddion, hysbysebion a labeli.

Cofiwch!
Rhowch ddigonedd o ganmoliaeth ac anogaeth i'ch plentyn bob amser.